

**Prifysgol Caerdydd**  
**Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora**  
**Côd Ymarfer Teledu Cylch Cyfyng**

**Hanes y Ddogfen**

<b>Awdur(on)</b>			<b>Dyddiad</b>	
S Gamlin			23/05/2018	
<b>Rhif Adolygu</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Diwygiad</b>	<b>Enw</b>	<b>Cymeradwywyd gan</b>
<b>Adolygiad chwemisol</b>				
<b>Dyddiad</b>		<b>Enw</b>	<b>Cymeradwywyd gan</b>	

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Diffiniadau.....	2
3.	Cwmpas.....	3
4.	Perchnogaeth a Gweithredu.....	3
5.	Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data.....	3
6.	Cymhwyso Deddfwriaeth Diogelu Data.....	3
7.	Diben y system CCTV.....	4
8.	Manylion y System.....	4
9.	Gosod ac arwyddion.....	4
10.	Mynediad at ffilmiau a recordiadau byw.....	5
11.	Cadw Deunyddiau wedi'u Cofnodi a Chael Gwared arnynt.....	6
12.	Achosion o Dorri'r Côt a Chwynion.....	6
	Atodiad 1.....	6
	Atodiad 2.....	7

## 1. Cyflwyniad.

Bwriad y Côt Ymarfer hwn yw sicrhau bod y systemau CCTV sefydlog sy'n cael eu gosod a'u defnyddio gan Brifysgol Caerdydd yn cydymffurfio â'r gyfraith, a bod cwmpas, diben a defnydd y systemau wedi'u diffinio'n glir ac yn gymesur.

Os bydd unrhyw gamerâu symudol yn cael eu defnyddio ar unrhyw adeg, bydd defnydd y rhain hefyd yn cael ei lywodraethu gan y Côt Ymarfer.

## 2. Diffiniadau

At ddibenion y Côt Ymarfer, bydd y diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- Mae "Prifysgol" yn cyfeirio at Brifysgol Caerdydd.
- "CCTV" yw System Teledu Cylch Cyfyng.
- Mae "Gwasanaethau Diogelwch" yn cyfeirio ar Wasanaethau Diogelwch Prifysgol Caerdydd fel rhan o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY).
- Prifysgol Caerdydd yw'r "Rheolwr Data".
- Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) yw'r "Gweithredwr Systemau".
- Staff Diogelwch a Llyfrgell a awdurdodwyd i ddefnyddio'r System Teledu Cylch Cyfyng yw "Defnyddwyr y Systemau".

### **3. Cwmpas.**

Mae'r Côt Ymarfer hwn yn rhwymo holl weithwyr a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a holl weithwyr gwasanaethau sydd o dan contract. Mae hefyd yn berthnasol i'r holl bersonau eraill a allai fod yn bresennol, am ba bynnag reswm, ar eiddo Prifysgol Caerdydd.

### **4. Perchnogaeth a Gweithredu.**

Gweithredir CCTV y Brifysgol gan y Gwasanaethau Diogelwch, fel rhan o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY). Mae eu personél wedi'u cyflogi yn uniongyrchol gan Brifysgol Caerdydd. Ceir CCTV mewnol eilaidd hefyd a ddefnyddir yn y Canolfannau data ac ystafelloedd TG LAN / Cyfrifiadurol a weithredir gan staff ARCCA & UITGB (atodiad 2). Eiddo Prifysgol Caerdydd yw'r systemau CCTV hyn, gan gynnwys yr holl ddeunydd wedi'i recordio a'r hawlfraint.

Gweithredwr systemau dynodedig y ddwy system, ar ran Prifysgol Caerdydd, yw Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora.

### **5. Cydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Diogelu Data**

Wrth weinyddu ei system CCTV, bydd Prifysgol Caerdydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data yn benodol yr egwyddorion data a eglurir yn Erthygl 5 y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac a amlinellir yn Atodiad 1 y Côt hwn.

### **6. Cymhwyso Deddfwriaeth Diogelu Data**

- Lle cofnodir delweddau o unigolion byw, adnabyddadwy yn fwriadol, mae hyn yn debygol o gynnwys data personol yr unigolion hynny. Mae casglu, defnyddio a storio data personol yn cael ei lywodraethu gan GDPR. Mae Prifysgol Caerdydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolydd Data sy'n gweithredu CCTV.
- O gofio y gall unrhyw gyfres benodol o recordiad CCTV gynnwys data personol, bydd yr holl recordiadau o'r fath yn cael eu trin yn unol â GDPR, ar wahân i'r egwyddor, (sy'n rhoi hawliau i wrthrych y data). Nodir yr egwyddorion yn llawn yn yr atodiad.
- Bydd hawliau gwrthrychau'r data, gan gynnwys hawl i gael mynediad at eu data personol (yn unol ag Adran 15 y GDPR), yn cael eu parchu lle ceir cadarnhad bod recordiadau'n cynnwys data personol. Os bydd unigolyn yn gwneud cais am fynediad at recordiadau y credir eu bod yn cynnwys eu data personol, dylid cyfeirio'r mater ar y Tîm Gwasanaethau Sicrwydd yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.
- Bydd y system CCTV yn cael ei gweithredu gyda sylw dyledus i breifatrwydd yr unigolyn ac yn unol ag Erthygl 8 yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol h.y. hawl unigolyn i breifatrwydd.
- Yn y bôn, mae'r system CCTV yn system agored, sy'n cael ei defnyddio o fewn terfynau campws cydnabyddedig Prifysgol Caerdydd. Bydd bodolaeth a phresenoldeb y system CCTV yn cael ei ddatgan fel yn adran 9 y ddogfen hon.
- Bydd unrhyw newidiadau i ddibenion y ffordd mae'r system CCTV yn cael ei gweithredu yn gofyn am gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ystadau ac fe'i cyhoeddir yn fewnol fel rhan o'r Côt hwn yn Adran 7.

- Rhaid i unrhyw ddefnydd o'r system CCTV at ddibenion cudd fod yn eithriadol, yn gymesur ac y gellir ei gyfiawnhau yn unig, fel yr eglurir uchod, a hynny gyda chytundeb Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ystadau mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Gweithredu neu ddirprwy dynodedig. Yn yr amgylchiadau hyn ni fydd manylion y newid yn cael eu cyhoeddi ymlaen llawn na'u datgelu wedi hynny.

## 7. Diben y system CCTV

Bwriad y system yw darparu lefel uwch o ddiogelwch yn amgylchedd y Brifysgol er budd y rhai sy'n astudio, yn gweithio, yn byw neu'n ymweld â'r campws.

Defnyddir y system CCTV i ymateb i'r nodau dilys / amcanion allweddol canlynol, a fydd yn destun asesiad chwemisol neu ynghynt os bydd angen.

- Canfod, atal neu leihau'r achosion o droseddau.
- Atal ac ymateb yn effeithiol i bob math o aflonyddu ac anhrefn cyhoeddus.
- Gwella cyfathrebu ac ymateb gweithredol patrolau diogelwch yn yr ardaloedd lle mae'r CCTV yn gweithredu, neu o amgylch yr ardaloedd hyn.
- Lleihau ofn troseddau.
- Creu cymuned fwy diogel.
- Casglu tystiolaeth drwy ddull teg ac atebol.
- Darparu cymorth gwasanaethau brys.
- Cynorthwyo gydag iechyd a diogelwch.
- Monitro llif y traffig a'r defnydd o feysydd parcio Prifysgol Caerdydd.
- Gweler Atodiad 2 ar gyfer Canolfannau data ac ystafelloedd TG LAN / Cyfrifiadurol.

Gan fod hyder y gymuned yn y system yn hanfodol, bydd yr holl gamerâu yn weithredol. Bydd rhaglen cynnal a chadw briodol yn cael ei sefydlu.

## 8. Manylion y System.

Mae'r system CCTV yn cynnwys dros 500 o gamerâu lliw amlwg sydd wedi'u lleoli ar eiddo'r Brifysgol, ac sydd yn recordio gweithgareddau yn yr ardal honno yn barhaus. Mae eu lleoliad wedi'i gynnwys yn ein rhestr o leoliadau asedau. Bydd unrhyw gamera y pennir nad yw'n angenrheidiol yn cael ei ddiffodd neu ei symud. Mae'r Ystafell Rheoli Diogelwch yn cael ei staffio 24 awr y dydd gan aelodau Diogelwch o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) sy'n gweithio sifftiau.

## 9. Gosod ac arwyddion

Rhaid gosod camerâu yn y fath fodd ag i beidio ag edrych dros ardaloedd domestig preifat. Ni chaniateir cuddio camerâu o'r golwg a chaiff arwyddion eu dangos yn amlwg yn lleoliad y camerâu lle bo'n bosibl ac wrth fynedfeydd i'r parthau ble mae'r CCTV yn weithredol h.y. mynedfa adeilad.

Bydd yr arwyddion yn nodi:

- Presenoldeb monitro a recordio.
- Perchnogaeth y system.
- Rhif ffôn cyswllt.

## **10. Mynediad at ffilmiau a recordiadau byw**

### **10.1 Mynediad at ffilm fyw**

Bydd y delweddau sy'n cael eu dal gan y system yn cael eu monitro yn yr Ystafell Rheoli Diogelwch, ystafell hunangynhwysol a diogel ar Gampws Cathays. At ddibenion gweithredol, yn unol â dibenion y system a nodir, dim ond staff dynodedig Diogelwch o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY), sydd wedi eu hyfforddi yn eu dyletswyddau, fydd yn cael mynediad at ffilmiau CCTV byw. Cyfeirir at y staff hyn fel Defnyddwyr y Systemau.

Gweler Atodiad 2 ar gyfer Canolfannau data ac ystafelloedd TG LAN / Cyfrifiadurol.

Mae mynediad nad yw'n hanfodol i'r Ystafell Rheoli Diogelwch yn cael ei fonitro / reoli ac mae'r holl aelodau o staff wedi'u hyfforddi yn eu cyfrifoldebau o ran defnyddio'r CCTV.

Mae'r system CCTV byw hefyd ar gael i'r Ystafell Reoli Camerâu Heddlu De Cymru yng Ngorsaf Heddlu Caerdydd Canolog drwy fonitor caeth. Gall yr heddlu weld delweddau byw ar unrhyw adeg, fodd bynnag nid oes gan yr heddlu'r pŵer i recordio'r delweddau neu i ail-leoli ffocws y camerâu yn uniongyrchol.

### **10.2 Mynediad at Recordiadau**

At ddibenion gweithredol, yn unol â dibenion y system a nodir, dim ond staff Diogelwch dynodedig o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) fydd yn cael mynediad at yr holl ffilmiau CCTV.

(Gweler Atodiad 2 ar gyfer Canolfannau Data ac ystafelloedd TG LAN /Cyfrifiadurol.)

Gallai Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) neu enwebai ganiatáu i aelodau eraill o staff y Brifysgol edrych ar y deunydd sydd wedi'i recordio o'r CCTV lle bo hyn yn hanfodol mewn cysylltiad ag atal trosedd, cynorthwyo i arestio ac erlyn troseddwr neu faterion diogelwch cenedlaethol.

Os bydd staff y Brifysgol yn gwneud cais am fynediad at recordiadau CCTV at unrhyw ddiben arall, dylid cyfeirio'r mater at y Tîm Sicrwydd Gwasanaethau yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

### **10.3 Datgelu deunydd wedi'i recordio**

Gan mai prif ddiben y system CCTV yw atal trosedd a chynorthwyo o ran arestio ac erlyn troseddwr, gallai staff Diogelwch dynodedig o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) ryddhau deunydd CCTV wedi'i recordio i'r heddlu os yw Prifysgol Caerdydd wedi cysylltu â'r heddlu ac os ceir cred resymol y gallai'r deunydd CCTV sydd wedi'i recordio fod o gymorth.

Os yw'r heddlu neu gorff ymchwilio swyddogol arall gyda phwerau erlyn yn cysylltu â Phrifysgol Caerdydd ac yn gwneud cais i gael mynediad at ddeunyddiau CCTV wedi'u recordio bydd gofyn iddynt ddarparu Hysbysiad ffurfiol ysgrifenedig sy'n cadarnhau fod y wybodaeth yn angenrheidiol naill ai er mwyn atal trosedd neu er mwyn arestio neu erlyn troseddwr, neu faterion diogelwch cenedlaethol.

Os oes unrhyw berson arall yn gwneud cais am ddeunyddiau CCTV wedi'u recordio, dylid anfon y cais hwn i'r Tîm Sicrwydd Gwasanaethau yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu.

Ym mhob achos lle caiff deunyddiau wedi'u recordio eu datgelu y tu allan i'r Brifysgol, bydd y swyddog priodol o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora (SECTY) yn sicrhau bod y datgeliad yn cael ei gofnodi ac yn cael llofnod amdano.

(Gweler Atodiad 2 ar gyfer Canolfannau Data ac ystafelloedd TG LAN /Cyfrifiadurol.)

### **11. Cadw Deunyddiau wedi'u Cofnodi a Chael Gwared arnynt.**

Rhaid cadw recordiadau CCTV a deunyddiau eraill a gynhyrchir ohonynt am bedwar diwrnod ar ddeg (yn achos recordiadau Disg Galed DVD) oni bai y cofnodir digwyddiad sy'n gofyn am ymchwiliad pellach naill ai gan y Gwasanaeth Diogelwch fel rhan o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora, yr heddlu neu gorff allanol arall gyda phwerau erlyn.

Yn yr achos olaf, rhaid cadw recordiadau am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad recordio.

Bydd yr holl gyfryngau, lle gwnaed recordiadau, nad oes eu hangen mwyach yn cael eu dinistrio'n ddiogel a bydd y manylion priodol yn cael eu cofnodi ar y Cofnodion Dinistrio.

Gweler Atodiad 2 ar gyfer Canolfannau data ac ystafelloedd TG LAN / Cyfrifiadurol.

### **12. Achosion o Dorri'r Côt a Chwynion**

Bydd copi o'r Côt Ymarfer hwn ar gael i unrhyw un sy'n gofyn amdano ac ar wefan y Brifysgol. Bydd unrhyw gŵyn ynghylch camddefnyddio'r system yn cael ei thrin o ddifrif a bydd Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora neu enwebai yn ymchwilio iddi gyda chyngor gan y Tîm Sicrwydd Gwasanaethau yn yr Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu fel bo'n briodol.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora neu enwebai yn sicrhau yr ymdrinnir â phob cwyn o dan Bolisi Gofal Cwsmer yr Is-adran Gwasanaethau Campws (CSERV) sy'n cynnwys cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r gŵyn o fewn tri diwrnod gwaith. Ceir manylion pellach am y broses o ymdrin â chwynion yn y Polisi a Gweithdrefn Gofal Cwsmer.

Dylid ymdrin ag achosion o dorri'r Côt Ymarfer yn unol â'r polisi disgyblu priodol. Gall achosion difrifol o dorri'r Côt arwain at atebolrwydd troseddol ar ran yr unigolyn y gellid ei ystyried yn gamymddwyn difrifol.

Lle bo'n briodol, ystyrir a ddylid gofyn i'r heddlu ymchwilio i unrhyw fater sy'n berthnasol i'r system CCTV ac y gellir ystyried ei fod yn o natur droseddol.

Wedi'i adolygu a'i ddiwygio yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref 'Côt Ymarfer Gwylidwriaeth Camera - Adran 30 (1) (a) o'r Ddeddfo Diogelu Rhyddid 2012.

## **Atodiad 1**

### **Egwyddorion diogelu data.**

- Mae prosesu'n golygu'r holl weithrediadau, gan gynnwys casglu, recordio, storio, dadansoddi neu drosi i fformatau eraill.
- Prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw;
- Casglu at ddibenion penodedig, eglur a dilys a dim prosesu pellach mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny;
- Digonol, perthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y'i prosesir ar eu cyfer;
- Cywir, a lle bo angen, yn cael ei ddiweddarau;

- Ei gadw mewn ffurf sy'n caniatáu adnabod y gwrthrychau data am gyfnod nad yw'n hirach na'r hyn sydd ei angen at y dibenion y caiff y data personol ei brosesu;
- A'i brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol gan gynnwys diogelu yn erbyn prosesu heb awdurdod neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, dinistrio neu ddifrodi'n ddamweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu sefydliadol priodol.

## Atodiad 2

### System CCTV Canolfannau Data ac ystafelloedd TG LAN /Cyfrifiadurol (ARCCA & UITGB)

#### 1. Cyflwyniad.

- I gefnogi diogelwch ar draws y campws mae gan amrywiol ganolfannau data ac ystafelloedd cyfrifiadurol systemau CCTV eilaidd wedi'u teilwra i anghenion yr UITGB ac ARCCA sy'n gweithredu'n llwyr o fewn y canolfannau data a'r ystafelloedd cyfrifiadurol heb unrhyw swyddogaeth allanol. Mae'n system amlwg ac mae'n cael ei harddangos felly.
- Mae'r codau ymarfer sy'n rhagflaenu'r atodiad hwn hefyd yn berthnasol i'r defnydd o system CCTV y Canolfannau Data ac ystafelloedd TG LAN / Cyfrifiadurol. Mae'r ychwanegiadau a ganlyn yn benodol ar gyfer y defnydd hwnnw.

#### 2. Diffiniadau

- Mae "Defnyddwyr y Systemau" yn cynnwys staff UITGB ac ARCCA a friffiwyd ac a awdurdodwyd i ddefnyddio systemau'r Ganolfan Ddata a'r ystafelloedd cyfrifiadurol yn unig.
- Pennaeth y Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora yw'r "Gweithredwr Systemau" dynodedig ar gyfer systemau UITGB ac ARCCA.

#### 3. Diben.

- Yn benodol mewn perthynas ag UITGB ac ARCCA, diben ei system CCTV yw monitro'r amgylchedd ac ymddygiad yn unol â rheolau'r canolfannau data ac ystafelloedd cyfrifiadurol, diogelwch, iechyd a diogelwch staff UITGB ac ARCCA, a monitro difrod a dwyn eiddo.

#### 4. Gosod ac arwyddion

- Bydd UITGB ac ARCCA yn cadw at yr arweiniad blaenorol am arwyddion gan fod gan y canolfannau data ac ystafelloedd cyfrifiadurol gonacontractwyr allanol yn gweithio yn yr ardaloedd hyn.

#### 5. Mynediad at recordiadau byw.

- Mae mynediad at ffilm fyw ar system CCTV y Ganolfan Ddata ac ystafell TG LAN yn cael ei gyfyngu i Ddefnyddwyr y System awdurdodedig yn unig h.y.

staff UITGB ac ARCCA sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r system, a staff Diogelwch dynodedig o'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora.

- Caiff y delweddau hyn eu monitro'n barhaus ar sgriniau arddangos yn ystafell Gweithrediadau UITGB a Swyddfeydd Cymorth y Ganolfan Ddata, ac ni fyddant, cyhyd ag y bo'n bosibl yn rhesymol, yn weladwy i bersonél heb awdurdod (noder: nid yw'r rhain yn ardaloedd â mynediad i'r cyhoedd).

#### 6. Mynediad at Recordiadau

- Dim ond i staff UITGB ac ARCCA a staff Diogelwch y dylid rhoi mynediad at recordiadau.
- Cedwir yn gaeth at ganllawiau blaenorol ar fynediad staff eraill at recordiadau. (Caniatâd Pennaeth Diogelwch).

#### 7. Datgelu Deunydd wedi'i Recordio

- Ni chaiff staff UITGB ac ARCCA ddatgelu deunydd CCTV wedi'i recordio i unrhyw berson neu awdurdod arall heb ganiatâd y Pennaeth Diogelwch. Ymdrinnir â cheisiadau o'r fath o dan y broses flaenorol drwy'r Gwasanaethau Diogelwch a Phorthora.

#### 8. Cadw Deunyddiau wedi'u Cofnodi a Chael Gwared arnynt.

- Rhaid cadw recordiadau CCTV UITGB ac ARCCA a deunydd arall a gynhyrchir ohonynt am 3 mis oni bai bod digwyddiad yn cael ei recordio sydd angen ymchwiliad ymhellach iddo gan gorff priodol. Os felly, caiff y recordiad ei gadw am y cyfnod y bydd ei angen yn unig.
- Bydd staff UITGB ac ARCCA yn dileu'r ffeiliau o'r gweinydd sy'n storio'r recordiad CCTV a chaiff manylion priodol ynghylch y weithred a'r dyddiad eu cofnodi yn y log monitro Gweithrediadau (gan weithredu fel cofnod dinistrio). Caiff hyn ei adolygu gan y Pennaeth Diogelwch neu ei enwebai dynodedig a fydd yn awdurdodi'r cofnod log monitro.
- Caiff cofnodion dinistrio ac unrhyw recordiad a gedwir eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion y côd ymarfer cenedlaethol ar gyfer rheoli CCTV bob chwe mis gan y Pennaeth Diogelwch neu ei enwebai dynodedig.

#### 9. Achosion o Dorri'r Côd a Chwynion

- Bydd y broses gwynio sy'n rhagflaenu'r atodiadau hyn yn gymwys i systemau UITGB ac ARCCA a'u defnyddwyr awdurdodedig.